

Y Gêm Ymfudo



Ymwelwyr yr haf yw gwenoliaid, fel llawer o adar Prydain. Yn yr hydref maent yn ein gadael ac yn ymfudo i hinsawdd cynhesach De Affrica. Rhaid iddynt oresgyn llawer o beryglon ar y ffordd ac mae nifer helaeth yn methu â chyrraedd pen y daith hir.

Chwaraewch y gêm ymfudo.

Gall dau neu fwy gymryd rhan. Bydd arnoch angen **dîs** a **botwm lliw** i'w ddefnyddio fel marc. Mae pob chwaraewr yn taflu yn ei dro.

Sut i chwarae:

- 1 Chi ydy'r wennol ar fin cychwyn eich taith hydrefol. Rhaid aros am dywydd da felly taflwch 6 cyn cychwyn.
- 2 Wedi taflu 6, taflwch eto a symudwch ymlaen y nifer priodol o sgwariau. Mae pob sgwar yn cynrychioli tua 100 milltir o daith.
- 3 Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y sgwariau y byddwch yn glanio ynddynt. Rhaid aros am eich tro nesaf a thafu eto os glaniwch ar sgwar gwag. Os cewch eich "lladd" rhaid cychwyn eto fel aderyn "newydd."
- 4 Mae amodau arbennig pan fyddwch yn croesi'r môr. Os glaniwch yno, edrychwch yn y bocs priodol isod.
- 5 Yr enillydd yw'r chwaraewr cyntaf i gyrraedd Durban yn Ne Affrica. Da iawn chi!

Amodau arbennig













Taflwch y dîs eto a dilynwch y cyfarwyddiadau.


- 1 ***Eich dal a'ch bwyta gan hebog.
Cychwynnwch eto***
- 2 ***Tywydd godidog.
Cewch dro arall***
- 3 ***Gwynt cryf yn eich chwythu oddi ar eich
trywydd cywir.
Collwch 1 tro***
- 4 ***Eich dallu gan oleudy a'ch lladd.
Cychwynnwch eto***
- 5 ***Bwydo da.
Cewch dro ychwanegol***
- 6 ***Gwynt ffafriol.
Bonws o 3 at eich sgôr nesaf***

Taith y wennol o Brydain i Dde Affrica.



Geirfa					
bwlch	pass	gorsaf modrwyo	ringing station
gwerddon	oasis	gwylltir	bush
sychder	drought	trofannol	tropical

<p>Niwel yn eich arafu.</p> <p>Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf.</p>		<p>MÔR UDD (Y Sianel)</p> <p>Amodau arbennig</p>		<p>CYCHWYN</p> <p>Tafwch 6 i ddechrau.</p>	
<p>Cwmwl dros yr haul.</p> <p>Colli 1 tro nes ei fod yn clirio.</p>					
<p>Cewch eich saethu gan heliwr.</p> <p>Cychwynwch eto.</p>	<p>Cewch hyd i fwllch hawdd trwy fynyddoedd y Pyrenees.</p> <p>Ymlaen 1 sgwâr.</p>		<p>MÔR Y CANOLDIR</p> <p>Amodau arbennig</p>		
					<p>Bwydo cyn croesi Mynydd yr Atlas.</p> <p>Colli 1 tro.</p>
<p>Bwydo da mewn gwerrdon.</p> <p>Colli 1 tro.</p>		<p>Amodau da i hedfan yn syth.</p> <p>Symudwch ymlaen 4 sgwâr.</p>		<p>Aros am dwydd da i groesi'r Sahara.</p> <p>Tafwch 6 i symud ymlaen.</p>	
					
<p>Marw mewn storm dywod.</p> <p>Ewch yn ôl i'r dechrau i gychwyn eto.</p>		<p>Bwydo da ar bryfaid o gwmpas geifr nomadiaid.</p> <p>Ymlaen 2 sgwâr.</p>		<p>Gwyt ffafiol.</p> <p>Ymlaen 2 sgwâr.</p>	
					
<p>Wedi blino ar ôl ehedeg dros y Sahel.</p> <p>Tynnu 1 oddi ar eich sgôr nesaf.</p>		<p>Sychder.</p> <p>Colli 1 tro tra'n chwilio am bwll yn i yfed ohono.</p>		<p>Gorffwys ar ôl croesi'r Sahara.</p> <p>Colli 1 tro a thynnu 1 oddi ar eich sgôr nesaf.</p>	
					

Tân gwylltir yn Nigeria. Ewch yn ôl 2 sgwâr.	Bwydo da heb orfod glanio. Ymlaen 2 sgwâr.		Stormydd trofannol yn eich arafu ym Masn y Congo. Colli 1 tro.		Bwydo da. Colli 1 tro ac ychwanegu 2 at eich sgôr nesaf
					Cymylau yn eich rhwystro Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf.
▼	Eich erlid gan aderyn ysglyfaethus Yn ôl 3 sgwâr.	Tyw ydd braf a chlii. Ymlaen 2 sgwâr.		Heidiau o bryfaid hawdd eu dal. Ymlaen 2 sgwâr.	◀
Bwydo da yn Llyn Nakuru. Ymlaen 2 sgwâr.					
Hela pryfaid o gwmpas eliffantod. Ewch yn ôl 2 sgwâr.	▶	Rhaeadr Mosi-oa-Tunya (Victoria.) Gwyt croes yn eich arafu. Colli 1 tro.	Stormydd glaw trwm. Tynnu 1 o'ch sgôr nesaf.		
					Cael eich bwyta gan hebog. Cychwyn eto.
Cyrraedd Johannesburg a chael eich dal mewn gorsaf modrwyo. Ewch yn ôl 1 sgwâr.		Perygl mynd yn rhy bell. Arhoswch i daflu 6 i orffen.		◀	
▼					
Cyrraedd Johannesburg a chael eich dal mewn gorsaf modrwyo. Ewch yn ôl 1 sgwâr.	▶	DURBAN Wedi cyrraedd yn ddiogel o'r diwedd ar ôl ehedeg 6,000 milltir. Llongyfarchiadau!	